

~ **CANLLAWIAU** ~

Darllenwch y canllawiau cyn cwblhau a chyflwyno'r ffurflen

CYMHWYSEDD:

1. Mae'n rhaid bod ymgeiswyr ar hyn o bryd yn cynrychioli Cymru a/neu Brydain Fawr fel unigolyn amatur (heb dâl) yn un o'r canlynol:
 - a. Tîm neu Garfan Genedlaethol mewn chwaraeon sy'n cael eu cydnabod gan Chwaraeon Cymru
 - b. Tîm Cymdeithas Coleg neu Ysgolion Cymru sy'n cael ei gydnabod gan Gorff Llywodraethu Cenedlaethol y Gamp honno
 - c. Dyfarnwr wedi'i ddewis gan y Corff Llywodraethu Cenedlaethol sy'n gyfyngedig i'r sawl sydd angen lefel uchel o ffitrwydd er mwyn cyflawni'r rôl
2. Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr bodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol -
 - a. byw yn Sir Gaerfyrddin
 - b. mynychu ysgol yn Sir Gaerfyrddin
 - c. aelod o Glwb Chwaraeon yn Sir Gaerfyrddin, ar yr amod nad oes cymorth ariannol ar gael gan y sir lle mae'r ymgeisydd yn byw.

TELERAU A'R AMODAU:

1. Dim ond campau a'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol sy'n cael eu cydnabod gan Chwaraeon Cymru fydd yn gymwys. Edrychwch ar y daflen Chwaraeon Cymeradwy i gael rhagor o fanylion.
2. Mae'n rhaid amgáu llythyr dethol neu e-bost gan Gorff Llywodraethu Cenedlaethol cydnabyddedig y campau hynny gyda phob cais. Mae'n rhaid i'r llythyr hwn -
 - a. Dangos yn glir fod yr athletwr wedi cael ei ddewis i gynrychioli Cymru/Prydain Fawr yn y chwe mis diwethaf.
 - b. Bod ar bapur pennawd swyddogol y Corff Llywodraethu Cenedlaethol (NI chaiff e-byst/llythyron ar bapur sydd heb fod yn bapur pennawd y Corff Llywodraethu Cenedlaethol eu derbyn)
 - c. Bod wedi'i arwyddo gan y swyddog perthnasol o'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol. (Bydd e-byst yn cael eu derbyn os ydynt o gyfrif e-bost Corff Llywodraethu Cenedlaethol yn unig e.e. ni fydd cyfrifon gmail, hotmail yn cael eu derbyn)
3. Mae mynediad i'r cyfleusterau y gwneir cais amdanynt yn amodol ar fod yn berthnasol i'ch anghenion hyfforddi felly nid oes sicrwydd y bydd y 2 weithgaredd yn cael eu cymeradwyo. Gweler y tabl isod am restr o'r gweithgareddau sydd ar gael ym mhob canolfan.
4. Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i gysylltu â'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol mewn perthynas â'r cais er mwyn cael eglurhad pellach, asesu cynnydd yr ymgeisydd a statws cystadleuol cyfredol.
5. Byddwch yn cael gwybod drwy e-bost neu dros y ffôn (os na ddarperir cyfeiriad e-bost) ymhen mis o gyflwyno'r cais ynghylch canlyniad eich cais.
6. Os yw'r meini prawf perthnasol yn cael eu bodloni a'ch bod yn llwyddiannus, rhoddir Carden Actif -
 - a. Yr ymgeisydd llwyddiannus yw'r unig un sy'n gallu defnyddio'r garden.
 - b. Ni ellir trosglwyddo'r garden.
 - c. Mae'n rhaid i ddeiliaid y garden gydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau ar gyfer y cyfleusterau sy'n cael eu defnyddio.
 - d. Mae'n rhaid sweipio'r Garden Actif bob tro neu bydd yn rhaid i'r ymgeisydd dalu'r tâl llawn.

- e. Mae'r garden yn ddilys am 12 mis o'r dyddiad cyflwyno; bydd angen i chi ailgyflwyno cais am 12 mis pellach os ydych yn dal i fod yn gymwys.
7. Os byddwch yn llwyddiannus, bydd yn ofynnol i chi gymryd rhan mewn hyrwyddiadau Chwaraeon a Hamdden yn y dyfodol a fyddai'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn. Gallai hyn gynnwys digwyddiadau/gwyliau ar gyfer ysgolion a Chanolfannau Hamdden, cyrsiau ac ymgyrchoedd marchnata perthnasol. Bydd gwybodaeth yn cael ei hanfon atoch ar e-bost yn ôl y galw.
8. Os yw'r garden yn cael ei chamdddefnyddio, mae gan yr Awdurdod Lleol yr hawl i dynnu statws y Garden Aur yn ôl.
9. Mae gan yr Awdurdod Lleol yr hawl i wrthod rhoi Carden Aur Actif Sir Gaerfyrddin.

CYFLEUSTER A GWEITHGAREDDAU HAMDDEN SYDD AR GAEL:

	Ystafell Ffitrwydd*	Pwll Nofio**	Trac Athletau	Cwrt Tennis	Tennis Bwrdd	Cwrt Sboncen***	Cwrt Badminton
Canolfan Hamdden Rhydaman****	✓	✓	✓				
Canolfan Hamdden Caerfyrddin****	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Canolfan Hamdden Llanelli****	✓	✓			✓	✓	✓
Canolfan Hamdden Castellnewydd Emllyn****	✓					✓	✓
Canolfan Hamdden Sanclêr****	✓			✓		✓	✓
Pwll Nofio Llanyddyfri****		✓					
Canolfan Chwaraeon Coedcae*****	✓						✓

*bydd angen cwblhau cwrs sefydlu os nad ydych eisoes wedi bod ar gwrs o'r fath (dylid gofyn am hyn ar eich ymweliad cyntaf)

**os ydych rhwng 11 ac 13 oed bydd angen i chi fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol sydd dros 18 oed bob amser. Bydd yn ofynnol i'r oedolyn cyfrifol (boed yn aelod presennol neu'n aelod newydd) fod yn bresennol yn ymsefydlu'r plentyn hefyd. (Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu os caiff y cais ei gymeradwyo)

**amserau nofio i'r cyhoedd yn unig

***oriau tawel yn unig (yn ôl disgrisiwn rheolwr a staff y cyfleuster)

****Llun i'w dynnu yn y dderbynfa os yw'r ymgeisydd yn llwyddiannus.

*****Ymgeisydd i gyflwyno llun maint pasbort gyda'r ffurflen gais

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch bod yn gymwys neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Hilary Jones, Swyddog Datblygu Chwaraeon drwy ffonio 01267 224714 neu drwy e-bostio'r cyfeiriad isod.

A fyddech cystal â dychwelyd y ffurflen wedi'i chwblhau a'r dogfennau ategol perthnasol at Hilary Jones -

Drwy'r post - Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3NQ

Drwy e-bost - actifsirgar@sirgar.gov.uk

~FFURFLEN GAIS~

Darllenwch y canllawiau cyn cwblhau a chyflwyno'r ffurflen

DATGANIAD:

Cadarnhaf fod y wybodaeth a roddir isod yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

Llofnod yr ymgeisydd*: _____

Printiwch eich Enw: _____

(*rhiant/gwarcheidwad os yw'r ymgeisydd o dan 16 oed)

Dyddiad: _____

MANYLION AM YR YMGEISYDD:

Enw Llawn: _____

Cyfeiriad: _____

_____ Côt Post: _____

E-bost: _____ Rhif Ffôn: _____

Dyddiad Geni: _____ Oed (wrth wneud cais): _____

Clwb: _____ Chwaraeon: _____

CYFLEUSTERAU:

Dewiswch **un** Cyfleuster Hamdden (mae hawl gan ymgeiswyr gael mynediad am ddim i **un** ganolfan yn unig)

a **dau** weithgaredd o'r rhestr:

Canolfan/Cyfleuster Hamdden: _____

Gweithgaredd 1: _____ Gweithgaredd 2: _____

GWYBODAETH ATEGOL:

Llythyr dethol wedi'i gynnwys

Llun maint pasbort (dim ond ar gyfer unigolion sy'n gwneud cais am Ganolfannau Chwaraeon y Gwendraeth a Choedcae i'w gynnwys gyda'r ffurflen gais neu ei e-bostio at actifsirgar@sirgar.gov.uk)

Hoffem ni (Is-Adran Chwaraeon a Hamdden Cyngor Sir Caerfyrddin) gadw'r manylion uchod er mwyn inni roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ynghylch digwyddiadau hamdden yn y dyfodol a allai fod o ddiddordeb ichi. Byddwn yn ymdrin â'ch manylion yn ofalus ac yn parchu eich preifatrwydd. Ticiwch os nad ydych am gymryd rhan

At ddefnydd y swyddfa yn unig

Llythyr dethol wedi'i gynnwys		Llythyr dethol wedi'i wirio gan Swyddog Datblygu Chwaraeon	
Enw'r Gweithiwr		Cyfeirnod Aelodaeth	
Dyddiad		Dyddiad	